OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 848

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

## RHAN 3

### Addasu darpariaethau ymadawr cynnar a darpariaethau eraill

**Rheoliadau gwerthoedd trosglwyddo**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 1996(**1**) wedi eu haddasu fel a ganlyn.

(2) Wrth gymhwyso rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny (rheolau ar barhad cyflogaeth ar ôl terfynu gwasanaeth pensiynadwy) i P fel aelod o'r hen gynllun—

(a) ym mharagraff (1), mae cyfeiriad at gyflogaeth y mae cynllun yn gymwys iddi i'w ystyried yn gyfeiriad at gyflogaeth y mae'r cynllun newydd yn gymwys iddi;

(b) ym mharagraff (1)(a), mae cyfeiriad at wasanaeth pensiynadwy P yn terfynu ar gais P i'w ystyried yn gyfeiriad at wasanaeth pensiynadwy P mewn perthynas â'r cynllun newydd yn terfynu felly; ac

(c) ym mharagraff (1)(b)(i), mae cyfeiriad at wasanaeth pensiynadwy P yn parhau tan y dyddiad gwarant i'w ystyried yn gyfeiriad at wasanaeth pensiynadwy P mewn perthynas â'r cynllun newydd yn parhau felly.

Wrth gymhwyso rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny (hawl i gael cyfwerth ariannol ychwanegol pan derfynir cyflogaeth y mae'r cynllun yn gymwys iddi) i P fel aelod o'r hen gynllun, ym mharagraffau (1), (2), (3)(a) a (4), mae cyfeiriad at derfynu cyflogaeth P i'w ystyried yn gyfeiriad at derfynu cyflogaeth P y mae'r cynllun newydd yn gymwys iddi.

(**1**) O.S. 1996/1847.